

Cofnodion Cyfarfod o'r Bwrdd, 23 Hydref 2020

Yn bresennol:

Shan Morgan

Meena Upadhyaya

Peter Kennedy

Des Clifford

Jeff Farrar

Andrew Jeffreys

Andrew Slade

Andrew Goodall

Natalie Pearson

Gawain Evans

David Richards

Ellen Donovan

Gareth Lynn

Helen Lentle

Charlotte Cosserat

Robin Bradfield

Carla Lyne

Yn mynychu:

Sharon Cross

Angharad Reakes

Jamie Gillies

Ysgrifenyddiaeth:

Charmain Watts

Drafftwyd y cofnodion gan:

Jack Sanders

Ymddiheuriadau:

Tracey Burke

1. Croeso

1.1 Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb i gyfarfod Bwrdd Llywodraeth Cymru.

1.2 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf

2. Materion cyfredol/yr wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19

2.1 Rhoddodd Andrew Goodall wybodaeth i'r Bwrdd ynghylch y datblygiadau diweddaraf o ran COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Trosglwyddiad y feirws yng Nghymru,
- Profi Olrhain Diogelu,
- Gweithgareddau gofal critigol,
- Profion,
- Nifer yr achosion positif.

2.2 Dywedodd Andrew Goodall fod nifer yr achosion positif o COVID yn codi oherwydd y cynnydd yn nifer y profion a wneir, ond bod Cymru yn parhau i fod yr isaf o'r pedair gwlad. Dywedodd hefyd bod cyfyngiadau lleol wedi gostwng nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer y feirws.

2.3 Rhoddodd Des Clifford yr wybodaeth ddiweddaraf am reoliadau'r cyfnod atal byr, gan rannu'r syniadau cychwynnol ar gyfer y cynlluniau i newid y trefniadau ar ôl y cyfnod hwnnw. Hefyd rhoddodd Andrew Slade yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y prif faterion sy'n effeithio ar y rheilffyrdd oherwydd COVID-19.

2.4 Ceisiodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol sicrwydd o ran sut yr oedd y sefydliad yn mynd ati i gydbwyso'r galwadau am adnoddau mewn meysydd gwaith allweddol, gan gynnwys COVID-19, Brexit, a chyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

2.5 Rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol ddisgrifiad i'r Bwrdd o'r gwaith a oedd yn ymwneud â sicrhau bod digon o adnoddau i gyflawni yn y meysydd gwaith o flaenoriaeth. Eglurodd bod ymdrechion enfawr yn cael eu gwneud yn barhaus gan y tîm Datblygu Sefydliadol i edrych ar ffyrdd o symud staff a llenwi swyddi hanfodol ac allweddol o fewn y sefydliad.

3. Yr wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid a'r Cyfrifon Blynyddol

3.1 Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheolaeth o fewn y flwyddyn ar gyfer mis 6, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhagolwg refeniw
- Rhagolwg cyfalaf
- Sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn

3.2 Hefyd rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cyfrifon blynyddol yn cael barn amodol am y tro cyntaf eleni. Roedd hynny wedi digwydd o ganlyniad i fater technegol cymhleth a arweiniodd at wahaniaeth barn rhwng Swyddogion Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sef rhywbeth prin iawn.

3.3 Eglurodd Gareth Lynn fod cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi cael ei gynnal i drafod y mater, ac yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw, cadarnhaodd ei fod yn fodlon ar y dull llywodraethu cadarn a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r penderfyniad hwn.

3.4 Dywedodd Andrew Jeffreys wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddyrannu'r cyllid COVID a oedd yn weddill. Hefyd, rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o wariant blynyddol.

4. Gweithdy Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

4.1 Roedd Sharon Cross ac Angharad Reakes wedi hwyluso gweithdy ar Berfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru. Canolbwyntiodd trafodaeth y Bwrdd ar dri chwestiwn allweddol:

- Pa agweddau sydd bwysicaf ar hyn o bryd?
- A oes unrhyw bryderon ynglŷn â pherfformiad?
- A yw'r camau gweithredu priodol ar waith i wella perfformiad?
- Pa agwedd yw'r un bwysicaf ohonynt, er mwyn canolbwyntio arni yn ystod y 6 mis nesaf?

5. Unrhyw fater arall

5.1 Rhoddodd David Richards yr wybodaeth ddiweddaraf am Fwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, gan ddweud bod y Bwrdd yn ystyried y camau gweithredu a'r argymhellion a gafwyd gan y sesiynau herio a arweiniwyd gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol.

5.2 Cafodd pawb eu hatgoffa gan yr Ysgrifennydd Parhaol i gwblhau'r holiadur hunanasesu sy'n bwysig er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Camau gweithredu sydd wedi codi o gyfarfod y Bwrdd

CAM GWEITHREDU	SWYDDOG ARWEINIOL	Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF
Dim camau gweithredu		